Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: POLISI DYLEDION DRWG

Cyflwyniad

Mae dyledion drwg yn cynrychioli incwm na fedrir ei gasglu. Mae gan y Gymdeithas bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar gyfer casglu rhent, tâl gwasanaeth ac incwm arall. Fodd bynnag, mae'n anochel bod achosion lle na fedrir casglu'r incwm dyledus i'r Gymdeithas a bod felly'n rhaid ei ddileu.

Cynhelir asesiad o'r tebygrwydd y medrir casglu'r incwm pan fo'r broses gasglu dyledion yn mynd rhagddi. Gwneir darpariaeth felly yn erbyn yr incwm dyledus i adlewyrchu incwm na fydd efallai fodd ei gasglu.

Mae'r polisi felly'n amlinellu'r sail ar gyfer gwneud darpariaeth ar gyfer dyledion drwg a'r broses o ddileu dyledion drwg.

Datganiad Polisi

1. Drwy'r polisi hwn, mae'r Gymdeithas yn anelu i sicrhau mai dim ond rhent, tâl gwasanaeth ac incwm arall na fedrir ei gasglu sy'n cael ei ddileu.
2. Bydd y Gymdeithas yn gwneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer dyledion drwg ar sail oedran y ddyled yn unol gyda'r tabl dilynol:

Dyled	**% Darpariaeth**
Rhent ac ôl-ddyledion tâl gwasanaeth	
0-8 wythnos	0
9-12 wythnos	25
13-17 wythnos	45
18-25 wythnos	55
26-51 wythnos	100
Dros 52 wythnos	100
Ôl-ddyledion cyn-denantiaid	100
Atgyweiriadau y codir tâl amdanynt	100
Dyledwyr amrywiol	Fel rhenti cyfredol uchod

3. Dim ond pan aethpwyd drwy'r holl brosesau ôl-ddyledion a bod yr asiantaethau cyfeirio casglu dyledion yn cynghori'r Gymdeithas na fedrir casglu'r ddyled y caiff dyledion eu dileu.
4. Bydd angen cymeradwyaeth y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol cyn dileu dyledion.

5. Cyn dileu unrhyw ddyled, bydd y Gymdeithas yn:
   (i) Sicrhau y gweithredwyd pob proses mynd ar ôl dyledion
   (ii) Sicrhau y cydymffurfiwyd gyda'r holl ofynion cyfreithiol
   (iii) Hyd eithaf ei gallu wedi cydymffurfio gyda'r saith maes amrywiaeth ar gyfer y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau
   (iv) Hyrwyddo ymwybyddiaeth o reolaeth ariannol dda drwy gyfeirio at asiantaethau eraill fel CAB (Cyngor Ar Bopeth).
   (v) Lle bynnag sy'n bosibl, osgoi gwastraffu costau'n gysylltiedig gyda mynd ar ôl dyledion nad yw'n bosibl eu casglu.
6. Bydd y Gymdeithas yn gweithredu'r polisi yn unol gyda'r egwyddorion a gytunwyd o bryd i'w gilydd o fewn y Strategaeth Dyledion Drwg.

<u>Meysydd Perfformiad Allweddol</u>:

A. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda'r Tîm Rheolaeth Weithredol, yn sefydlu gweithdrefnau a gofynion hyfforddiant priodol yn gysylltiedig â mynd ar ôl dyledion a phenderfynu pa ddyledion ddylai gael eu dileu.

B. Bydd y Rheolydd Cyllid yn cyfrif y ddarpariaeth dyledion drwg ar sail fisol yn unol â'r polisi. Rhoddir adroddiad yn chwarterol i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar lefel y dyledion drwg a chynhwysir hynny yn y system adrodd mesurau a gyflwynir i'r Bwrdd ar sail fisol.

C. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol yn dileu dyledion yn unol gyda'r polisi ar sail fisol. Caiff gwerth dyledion a gaiff eu dileu ei gynnwys yn y system adrodd mesurau ar sail fisol.

Nod Strategol:	Sicrhau bod gan y Gymdeithas ddull gweithredu addas ar gyfer darpariaeth ar gyfer a dileu dyledion drwg.	
Cyfeirnod:		
Dyddiad Cyhoeddi:	Ionawr 2011	
Dyddiad Adolygu:	Ionawr 2014	
Adrannau/Unedau yr Effeithir Arnynt:	Cyllid a Thai	
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd dyddiedig Ionawr 2011	
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol	
Cydymffurfiaeth Statudol:	Datganiad o'r Arfer a Argymhellir	
Ffactorau Risg Strategol:	Colli rhent, tâl gwasanaeth neu incwm arall yn effeithio ar hyfywedd y Gymdeithas	
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd*	D/B

	ac ati?	
	A deimlir y medrai'r polisi fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	Ni ddisgwylir yr effeithir yn niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion
	A ymgynghorwyd â grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly, beth oedd y canlyniad?	Na
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	Amcan y polisi yw sicrhau mai dim ond rhenti na fedrir eu casglu sy'n cael eu dileu.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	Ni ragwelir fod y polisi yma'n effeithio ar hawliau ac oblygiadau tenantiaid
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	Ar hyn o bryd, ni ymgynghorwyd â thenantiaid ar y polisi yma

CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU

STRATEGAETH DILEU DYLEDION DRWG

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i gasglu'r holl rent, tâl gwasanaeth ac incwm arall sy'n ddyledus. Mae'r Polisi Casglu Rhent ac Ôl-ddyledion yn amlinellu'r dull o fynd ar ôl a chasglu'r incwm sy'n ddyledus i'r Gymdeithas. Caiff y polisïau a gweithdrefnau hyn eu gweithredu'n egniol.

Fodd bynnag, cydnabyddir na fedrir casglu peth o'r arian sy'n ddyledus i'r Gymdeithas. Bydd amrywiaeth o resymau am hyn, ond mae hyn yn aml yn codi pan fo tenant yn gadael annedd lle cawsant eu bygwth gyda dadfeddiannu.

Gwneir asesiad o'r tebygrwydd y medrir casglu'r incwm pan ddilynir y broses casglu incwm. Gwneir darpariaeth felly yn erbyn yr incwm gorddyledus i adlewyrchu incwm na fydd efallai'n bosibl ei gasglu. Mae'r ddarpariaeth yma'n gysylltiedig gydag oedran y ddyled. Po hynaf y ddyled y lleiaf tebygol yw hi y medrir ei chasglu ac felly'r mwyaf yw'r cyfle y bydd yn 'troi'n ddrwg'. Mae'r tebygrwydd uwch hwn yn golygu y darperir canran fwy o'r ddyled fel darpar ddyled ddrwg po hynaf y daw'r ddyled; unwaith mae'r ddyled yn 26 wythnos oed mae'r ddarpariaeth yn 100%.

Egwyddorion

- Bydd y Gymdeithas yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyled ddrwg pan fydd dyled dros wyth wythnos oed.
- Bydd y Gymdeithas yn gwneud darpariaeth 100% ar gyfer dyled ddrwg pan fo dyled dros 26 wythnos oed.
- Ni chaiff dyled ei dileu nes y dihysbyddwyd pob polisi a gweithdrefn yn ymwneud â mynd ar ôl dyledion.
- Bydd y Gymdeithas yn cynnal fframwaith casglu rhent ac ôl-ddyledion effeithiol a gynlluniwyd i uchafu casglu incwm.
- Bydd y Gymdeithas yn cyfeirio holl ddyledion cyn denantiaid i asiantaeth casglu dyledion.
- Rhaid cael cymeradwyaeth y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol i ddileu dyledion.

Dyddiad Cymeradwyo: Ionawr 2011

Dyddiad Adolygu: Ionawr 2014